



# Cymdeithas Brodwaith Cymru

---

## CYLCHLYTHYR GAEAF 2018 - 2019

---

Croeso i rifyn gaeaf arall o'r *Aur Winiadau* a dyma lun o waith canfas Cangen Meirionydd i'n sirioli.



## Gair o'r Gadair

Annwyl Aelodau

Blwyddyn Newydd Dda a gobeithio eich bod chi i gyd wedi cael Nadolig Llawn.

Dyma ni ar ddechrau blwyddyn eto yn llawn digwyddiadau e.e bydd cwrs y Gymdeithas mis Mawrth ym Mhlas Tan Y Bwlch a dydi hi ddim yn rhy hwyr i chi ymuno â ni dros y penwythnos neu ddiwrnod yn unig gydag Esyllt Jones yn ein hyfforddi. Edrychwn ymlaen at ei fynychu ac mae mwy o fanylion yn dilyn os oes genych ddi-ddordeb.

Rydym yn troi dalen newydd eleni gydag arddangosfa yng Nghanolfan Awelon Rhuthun gan edrych ymlaen yn fawr i weld yr arddangosfa wych a fydd yn ein disgwyl. Dymuniadau gorau i griw'r Gogledd Ddwyrain yn y fenter newydd yma.

Gofynnaf yn garedig i chi gysidro un o swyddi'r swyddogion er mwyn sicrhau dyfodol Cymdeithas Brodwaith Cymru. Mae gwir angen gwaed newydd i fynd â'r Gymdeithas ymlaen i'r blynyddoedd nesaf.

Mae llyfrau raffl wedi eu rhannu allan erbyn hyn a byddai'n ffantastig os byddem yn gallu eu gwerthu i gyd.

Diolch i chi i gyd am eich cydweithrediad a gobeithio y gwelaf chi yn fuan.

Cofion atoch

**Rowena**

### \*\*\*\* Cwrs penwythnos Plas Tan y Bwlch \*\*\*\*

**9 – 10 Mawrth 2019**

Fel y soniodd Rowena mae lle i rywfaint yn rhagor fynychu'r Cwrs a dyma'r manylion.

Yn y lle cyntaf fe fydd cyfle i gyfuno pwythau i greu llyfr cyfair pwythau efallai yna defnyddio'r pwythau i greu gwaith fel clustog. Defnyddir pob math o ddefnyddiau - gallant fod yn gotwm/melfed/brethyn/sidan. Ar ôl rhoi rhain ar gefndir priodol yna pwytho a chreu "*crazy quilting*" a defnyddio amrywiaeth o bwythau i addurno.

O ran defnyddiau ar gyfer y cwrs mae'n dibynnu beth fydd person am ei wneud. Os taw llyfr cyfair pwythau yna dim ond digon o amrywiaeth o edafedd/gwlân i'w ddefnyddio. Fe ddaw Esyllt â darnau o ffelt i bawb weithio arnynt. Byddai llyfr sy'n dangos y gwahanol bwythau yn help hefyd. Os am ddechrau gwneud clustog neu ddarn mwy o waith dod â sgraps o ddefnyddiau sy'n cydweddu; hefyd sgwâr o ddefnydd yn gefndir.

Edau: fel Perle gwahanol drwch, coton a broder, edau sidan, edau amryliw, edafedd gwlân, ac wrth gwrs, nodwyddau ar gyfer y gwahanol drwch.

Gobeithio fod hyn yn ddigonol ond croeso i unrhyw un gysylltu drwy Medwen os am fwy o wybodaeth. Y cynllun yw cael amser hamddenol yn creu addurniadau deniadol!

**Os am fynychu'r cwrs, cysylltwch â Medwen, ar 01678 520293 e-bost [maes.meini@btinternet.com](mailto:maes.meini@btinternet.com) gyda blaendal o £50.00.**

### \*\*\*\* ARDDANGOSFA'R GYMDEITHAS \*\*\*\*

**Canolfan Awelon Rhuthun 13 Ebrill**

Gan na fydd gennym stonidin arddangosfa ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol o hyn ymlaen, penderfynwyd fod yr ardaloedd i gynnal arddangosfa yn eu tro. Diolch i Gangen y Gogledd Ddwyrain am wirfoddoli i fod y rhai cyntaf i wneud hyn. Bydd eu harddangosfa hwy yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Awelon Rhuthun ar 13 Ebrill o 10.00 yb. hyd 3.30 yh. Edrychwn ymlaen yn fawr i weld criw da yn eu cefnogi a chofiwch hefyd y cynhelir y Pwyllgor Blynyddol yn y prynhawn am 1.30. **Felly dewch i gyd i Ruthun!**

### Swyddogion y Gymdeithas

Sylfaenydd:	Joyce Jones	☎ 01766 522085	E-bost: <a href="mailto:joyce@stitch.co.uk">joyce@stitch.co.uk</a>
Llywydd Cenedlaethol:	Brenda Wyn Jones	☎ 01248 600020	
Cadeirydd:	Rowena Evans	☎ 01678 520698	E-bost: <a href="mailto:carysrowena@live.co.uk">carysrowena@live.co.uk</a>
Is-gadeirydd:			
Trysorydd:	Buddug Roberts	☎ 01766 522497	E-bost: <a href="mailto:rhiwcriccieth@gmail.com">rhiwcriccieth@gmail.com</a>
Is-drysorydd:			
Ysgrifennydd:	Medwen Charles	☎ 01678 520293	E-bost: <a href="mailto:maes.meini@btinternet.com">maes.meini@btinternet.com</a>
Is-ysgrifennydd:			
Ysg. Aelodaeth:	Gwenfyl Jones	☎ 01745 890417	E-bost: <a href="mailto:meinididdos13@gmail.com">meinididdos13@gmail.com</a>
Golygydd:	Margaret Griffith	☎ 01766 810513	E-bost: <a href="mailto:m.griffith901@btinternet.com">m.griffith901@btinternet.com</a>

## Gweithgareddau

Mae croeso i bawb ymuno â'r holl weithgareddau – ond i chi gysylltu ymlaen llaw am fanylion ac i sicrhau bod lle!

### Y GOGLEDD DDWYRAIN

Cynhelir pob gweithdy yng Nghanolfan Awelon, Rhuthun o 10.00 yb. – 3.00 yp.

Mae angen rhoi enw ymlaen llaw i'r ysgrifenyddion:

Llinos Roberts 01745 582204 neu Ann Jones 01492512155.

**16 Chwefror**

**Diwrnod gorffen gwaith**

**23 Mawrth**

**Diwrnod** yng ngofal  
Margaret Roberts

**13 Ebrill**

**Arddangosfa**

### Y CANOLBARTH

Cynhelir pob gweithgaredd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre o 10.00 yb. – 4.00 yp.

Manylion pellach gan Eryl Evans 01970 820778.

**19 Ionawr 2019**

**Diwrnod o wniö**  
yng ngofal Meleri Jones

**3 Mawrth**

**Cwiltio**  
yng ngofal Joan Phillips

**6 Ebrill**

**Pwyth a Chlonc**

### MÔN AC ARFON

Cynhelir y cyrsiau i gyd yn Nhan Lan, Bodorgan.

Manylion pellach gan Gladys Pritchard 01407 762090

**2 Chwefror**

**Brodio gyda ruban silc**  
gyda Sue Williams

**2 Mawrth**

***Mount Mellick***  
gydag Anne Lane

**6 Ebrill**

**Crosio sylfaenol**  
gyda Gladys Pritchard

**4 Mai**

**Peintio a brodio** ar sidan  
gyda Margaret a Jên Jones

### MEIRIONNYDD

Cynhelir pob cyfarfod yng Nghanolfan Tegid, Y Bala o 10.30 yb. – 3.30 yp.

Os am fynychu cysylltwch â Rhiannon Evans 07814807130 neu Mair Rees 01678 521343 - y Tiwtor

**26 Ionawr**

**Gorffen gwaith**

**13 Ebrill**

**Gwaith Brethyn Gwlanog**

### DWYFOR

Cynhelir y gweithgaredd yn Neuadd yr Eglwys, Cricieth.

Manylion pellach gan Meinir Lloyd Jones ar 01766 770745.

**1 Ebrill**

**Cwrs hwyrnos** o 4.30 i 9.00 yh.  
gyda Joyce Jones

## O Ardal i Ardal

### Y GOGLEDD DDWYRAIN

Mae tymor 2018-19 wedi dechrau gyda chynnydd yn yr aelodaeth. Cawsom Christine Pugh o Abergele atom i'n dysgu sut i grosio i'n cyfarfod cyntaf.

Ym mis Hydref fe aethom i'r Bala i gael cinio, yna ymlaen i weld arddangosfa cylch y Bala. Pawb wedi dotio at yr holl waith cywrain a'r croeso.

Yna yn Nhachwedd daeth Angharad Rhys atom i ddangos i ni sut i wneud gorchudd ar botel win, sef Sion Corn del iawn.

Aethom i Nant y Felin yn Llanrhaeadr i ddathlu'r Nadolig. Nawr ymlaen i 2019 ac ym mis Chwefror yr ydym yn dod at ein gilydd i geisio gorffen y gwaith sydd gennym i gyd heb ei orffen.

Fel y gwyddoch roedd rhaid i ni newid dyddiad ein Harddangosfa. Rydym yn estyn croeso i chi gyd i Awelon yn Rhuthun ar Ebrill y 13eg o 10 yb. tan 3.30 yp. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yno.

## Y CANOLBARTH

Dechreuwyd ein tymor yng nghwmni Eluned Davies o Ddiheuwyl, ger Aberaeron. Mae Eluned yn weithgar iawn ac yn mwynhau amrywiaeth o waith llaw. Y tro hwn dewisodd wneud clytwaith gyda ni, gan weithio ar hen batrwm y caban pren a hwnnw'n ddwy ochrog. Gwnaethom fat hirsgwar i'w roi ar ganol bwrdd. Roedd un ochr yn lliwiau'r Nadolig a'r ochr arall o liwiau gwahanol.

Yna, cyn y Nadolig cafwyd cwrs gan ddwy o'n haelodau, sef Diana ac Eryl. Y bwriad yn y dosbarth yma oedd gweithio gyda defnyddiau ychydig yn wahanol. Yn y bore buom yn defnyddio defnydd corc i wneud pyrsiau ac ati. Mae corc yn ddefnydd hollol gynaliadwy gan fod yn bosib iddo ail dyfu ar y coed ar ôl ei gynaeafu. Yna yn y prynhawn aethom i'r pegwn arall a defnyddio plastig! Yr unig gyfiawnhad oedd nad rhywbeth i'w ddefnyddio unwaith a'i daflu oedd y gwaith. Roedd hefyd yn ffordd o ddefnyddio darnau o ddefnydd sydd ar ôl gennym o brosiectau eraill. Gwnaethom fapiau bach gyda darn clir yn y canol i allu gweld ei gynnwys.

Cawsom seibiant wedyn dros y Nadolig ond byddwn yn dechrau arni eto yn y flwyddyn newydd.

## ARFON A MÔN

Agorwyd y tymor gyda thaith i Ben Llŷn – tro ym Mhwlheli, cinio yn y Cwt Tatws yn Nhudweiliog, gyda chyfle i weld yr holl grefftwaith a gasglwyd gan Daloni Metcalfe, yna ymlaen i Aberdaron gan ymweld ag Eglwys Sant Hywyn a mwynhau paned ym Mecws Islyn.

Alison Chapman ddaeth atom yn Hydref, i wneud bag *Quip* – bag pegiau Swedaidd, a hynny gyda pheiriant. Cynhaliwyd y gweithdy hwn yn y Neuadd Goffa ym Mhenygroes, yn ogystal â'r gwethdy gydag Eirlys Savage ym mis Tachwedd. Cawsom arweiniad gan Eirlys ar sut i lifo defnydd cefndir, a sut i'w addurno gan ddefnyddio gwahanol bwythau. Rhiannon Parry ddaeth atom ddechrau Rhagfyr i'n cyfarwyddo ar waith *appliqué* a brodwaith.

Aeth dros hanner cant ohonom i lawr i Sain Ffagan ddiwedd Hydref, gan alw yn yr Amgueddfa Wlân yn Felindre ar ein ffordd i'r gwesty yn Abertawe ar y dydd Gwener. Ar y Sadwrn cawsom ddiwrnod llawn yn Sain Ffagan, a chyfle i ryfeddu at y gwaith brodio a wnaed gan yr aelodau ar gyfer Llys Llywelyn o dan gyfarwyddyd Cefyn Burgess.

I Westy'r Victoria ym Mhorthaethwy yr aethom am Ginio'r Hen Galan eleni, gyda Meinir o Gwmni Meian, Llangian yn rhoi sgwrs i ni am wlân – ei ragoriaethau a'i ddefnyddioldeb. Roedd yn braf gweld aelodau newydd yn cyd-fwynhau.

Trefnwyd bws ar gyfer **13 Ebrill** pryd byddwn yn mynd i Abakhan yn y bore, ac i weld **Arddangosfa Aelodau'r Gogledd Ddwyrain** yn ystod y prynhawn. Diwedd Ebrill byddwn yn teithio i Lindisfarne, ac yn aros dwy noson yn yr Hilton, Sunderland. Os am ymuno â ni cysylltwch – [rhiannonp18@btinternet.com](mailto:rhiannonp18@btinternet.com) neu 01286 880353

## MEIRIONNYDD

Fe ddechreuwyd ein tymor newydd yn mis Medi gyda chwrs yn defnyddio canfas plastig. Roedd Mair ein tiwtor medrus wedi cynllunio bocs defnyddiol wedi ei bwytho gyda phatrymau diddorol yn defnyddio edau o wlân, a gorchudd i gaead tabled neu ffeil gyda chynllun hefo dwy ddylluan lliwgar yn eistedd ar goeden flodeuog, edrychai yn hyfryd dros ben. Bydd yr eitemau yn ddefnyddiol iawn wedi eu gorffen.

Uchafbwynt y tymor oedd mynd am drip i Harrogate i ymweld â'r "*Knitting and Stitching Show*". Cwmni Caelloi â'n cludodd i'r gwesty moethus yn Wetherby ac ymlaen i'r arddangosfa yn Harrogate. Diolchwn i Nesta am gymryd y cyfrifoldeb o bob agwedd o'r gwaith trefnu ac mae pawb a fynychodd y trip yn edrych ymlaen yn barod am y trip nesaf!

Ein Swyddogion yw: Cadeiryddes - Gwyneth Jones; Is gadeiryddes - Lola Williams; Ysgrifenyddes - Rhiannon Evans; Is ysgrifenyddes -Nesta Jones; Trysoryddes -Rowena Evans.

## DWYFOR

Byddwn yn cynnal cwrs hwyrnos ym mis Ebrill o 4.30 yh. ymlaen. Joyce fydd yn ei gynnal ac fe fyddwn yn dysgu sut i wneud taslau a chordyn. Mae'r cyrsiau hwyrnos hyn yn boblogaidd iawn gan yr aelodau, nid yn unig gan ei fod yn rhoi cyfnod hirach o amser i ganolbwyntio ar y gwaith, ond wrth gwrs y mae' hefyd yn gyfle i gael rhyw baned fach a sgwrs ar ganol y noson! Croeso atom.

## Raffl

Mae'r tocynnau raffl bellach wedi cyrraedd y canghennau a gobeithio eich bod i gyd yn brysur yn eu gwerthu. Y wobr yw "Hen Wlad fy Nhadau" wedi ei gynllunio a'i bwytho gan Joyce Jones, Cricieth. Mae llun ohono ar y dudalen olaf. Os gwelwch chi'n dda, fedrwrch chi wneud eich gorau i werthu cynifer â phosib o docynnau gan mai dyma fydd ffynhonnell ein hincwm o hyn ymlaen i dalu am Ysgoloriaeth y Gymdeithas a'r Bwrsari. Tynnir y raffl yn yr Arddangosfa yn Rhuthun.

### Y Pwyllgor Blynyddol

Bydd y Pwyllgor Blynyddol yn cyfarfod am 1.30 y pnawn ddydd Sadwrn 13 Ebrill yng Nghanolfan Awelon Rhuthun, diwrnod yr Arddangosfa.

### Y Cyfarfod Blynyddol

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol eleni ar **ddydd Mercher 7 Awst ym Mhabell y Cymdeithasau Rhif 2 am 4 y pnawn**. Os oes mater y dymunwch ei godi yn y Cyfarfod, cysylltwch a'r Ysgrifennydd ymlaen llaw. Mae pob mudiad a chymdeithas i fod i gadw at yr amseroedd, felly bydd yn rhaid cadw at y rhaglen.

### Aelodaeth

Y ffordd fwyaf cyfleus o dalu eich tâl aelodaeth yw trwy archeb banc, am fod yn rhaid anfon ffurflen bob blwyddyn at y rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

Gofynnir i bob cangen anfon enwau a thâl aelodaeth ei haelodau gyda'i gilydd i hwyluso'r gwaith gweinyddol. Gobeithio'ch bod i gyd yn cenhadu er mwyn denu rhagor o aelodau!

Gofynnwn unwaith eto am gyfeiriad e-bost yr oll o'n haelodau sydd ag un er mwyn hwylustod.

### Bwrsari ar gyfer ein haelodau

Cofiwch fod y Gymdeithas yn cynnig arian i aelodau i'w galluogi i ddilyn cwrs hyfforddiant o 1, 2 neu 3 diwrnod mewn maes brodwaith o'u dewis.

Byddai'n braf cael nifer ohonoch yn ymgeisio. Pe byddech yn llwyddiannus, byddai disgwyl i chi gynnal nifer bychan o weithdai ar ôl cwblhau'r cwrs, er mwyn rhannu'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu gydag aelodau eraill y Gymdeithas.

Cofiwch fod y cymorth yma'n agored i bob oed. Felly beth amdani? Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r Ysgrifennydd ar unwaith.

### Lluniau

Os ydych chi'n cynnal unrhyw fath o weithgaredd, cofiwch drefnu fod rhywun yn tynnu lluniau a'u hanfon i'r Golygydd.

Golygydd y Cylchlythyr: Margaret Griffith, Dwyfach, Chwilog Pwllheli, Gwynedd LL53 6TF  
Cyhoeddir gan Gymdeithas Brodwaith Cymru  
Argraffwyd gan Hywel Evans, 27 Trewen, Dinbych LL16 3HF

## Dyddiadau i'w cofio

**1 Mehefin:** dyddiad cau ar gyfer rhifyn yr haf *Aur 21 Gorffennaf*: dylai pob Cangen anfon ei mantolen at y Trysorydd.

**30 Tachwedd:** dylai pob Cangen fod wedi anfon rhestr o gyfeiriadau ei haelodau at yr Ysgrifennydd Aelodaeth. Mae angen i aelodau unigol anfon eu cyfeiriadau ati hefyd.

**31 Rhagfyr:** dyddiad cau ar gyfer rhifyn y gaeaf o *Aur Winiadau*.

**31 Ionawr:** y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am ysgoloriaeth y gymdeithas i fyfyrwyr.

**Ebrill:** dyddiad a lleoliad y pwyllgor blynyddol i'w benderfynu'n y Cyfarfod Blynyddol. Mwy o wybodaeth yn rhifyn y gaeaf o *Aur Winiadau*.

### Cysylltwyr Lleol

#### Môn ac Arfon

Gladys Pritchard 01407 762090

#### Y De Ddwyrain

Marian Evans 02920 843275

#### Rhydaman

Megan Bevan 01267 275461

#### Y Canolbarth

Eryl Evans 01970 820778

#### Gogledd Ddwyrain

Mary Mars Lloyd 01824 790276

#### Dwyfor

Meinir Lloyd Jones 01766 770745

#### Meirionnydd

Rhiannon Evans 07814 807130

### Defnyddiau brodio rhatach

Fe fydd rhai ohonoch mae'n siŵr yn sylwi fod nifer y siopau sy'n cynnig gostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn fyrrach eleni. Y rheswm am hynny yw fod Siop Kit 'n Kaboodle yn Llanfairpwll a Benllech bellach wedi cau. Diolch iddynt am eu cydweithrediad tros y blynyddoedd.

Os gwyddoch chi am unrhyw siop fyddai'n fodlon bod ar y rhestr, yna byddai eich cysylltydd lleol yn falch iawn o glywed gennych. Diolch i'r rhai ohonoch sy'n gwneud yn siŵr fod y rhestr hon yn cael ei diweddarau'n gyson.

Cytunodd y siopau canlynol i gynnig gostyngiad i ni, dim ond i chi ddangos eich tocyn aelodaeth.

**Canolfan Grefftau Tan Lan**, Bodorgan, Ynys Môn.

**Silken Strands**, 20 Y Rhos, Bangor (dim disgownt, ond prisiau rhesymol iawn)

**Siop D.E.**, Y Bala

**Brethyn Blaenau**, 33 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiiniog

Gwobr y raffl



Y Canolbarth



Lluniau'r Gogledd Ddwyrain



Môn ac Arfon

